Dŵr Cymru Welsh Water

# Cynllun Taliadau

2023-24

dwrcymru.com

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 5
2. Cwynion 6
3. Treth ar Werth 8
4. Atebolrwydd am daliadau 8
5. Sut y byddwn ni'n codi tâl arnoch 10
6. Sut i dalu 15
7. Dogfennau eraill am daliadau 18
8. Taliadau domestig 19
9. Taliadau annomestig 21
10. Taliadau elifiant masnachol 24
11. Taliadau eraill ar gyfer mesuryddion 28
12. Taliadau amrywiol 30
13. Taliadau seilwaith 34


**Y stori nid er elw**
Darganfyddwch ymhle mae'ch arian yn cael ei fuddsoddi yn **dwrcymru.com/gwahanol**

# Diffinio'r termau

**Defnyddir y diffiniadau isod yn y Cynllun hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:**

'**Adnewyddu**' yw unrhyw waith a wneir yn yr eiddo o baentio ac addurno i waith strwythurol.

'**Ailddatblygiad**' yw safle lle newidir y cysylltiadau neu'r defnydd ohonynt. Mae ailddatblygiad yn cynnwys, er enghraifft, adeiladu tai newydd yn lle hen dai, troi tŷ mawr yn fflatiau, cyfuno dau eiddo neu fwy yn un, addasu ffatri i weithredu fel swyddfeydd, ymestyn ffatri neu swyddfeydd, a newid cyflenwad dŵr adeilad i gyflenwad domestig.

'**Annomestig**' yw unrhyw safle/cwsmer heblaw am safle/cwsmer domestig. Gweler isod am ddiffiniad o safle domestig.

'**Carthion domestig**' yw cynnwys toiledau, dŵr a ddefnyddiwyd ar gyfer coginio neu olchi, a dŵr wyneb, ond nid dŵr a ddefnyddiwyd ar gyfer busnes golchi dillad neu fusnes sy'n paratoi bwyd neu ddiod i'w fwyta/yfed oddi ar y safle (gweler Adran 117 o'r Ddeddf).

'**Cwmni**' yw Dŵr Cymru Cyfyngedig yn masnachu fel Dŵr Cymru Welsh Water.

'**Cwmni Bilio**' yw cwmni heblaw Dŵr Cymru Cyfyngedig sy'n cyflenwi dŵr i safle ac sy'n gyfrifol am gasglu'r taliadau carthffosiaeth mewn perthynas â'r safle hwnnw ar ran Dŵr Cymru Cyfyngedig.

'**Cwsmer neu ddarpar gwsmer**' yw naill ai unigolyn sy'n cael gwasanaeth gan y Cwmni neu sy'n atebol i dalu taliadau yn unol â chynllun taliadau'r Cwmni, neu unigolyn a allai ddod yn unigolyn o'r fath o wneud cais i gael gwasanaeth gan y Cwmni.

'**Cysylltiad**' yw cysylltiad sy'n cael ei reoleiddo gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, sy'n caniatáu i'r cwsmer gael budd o wasanaethau'r Cwmni.

'**Deddf**' yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

'**Deiliad**' – yn ogystal ag unrhyw unigolyn sy'n byw ar safle, unrhyw unigolyn sy'n:

- Cynnal a chadw safle a gaiff ei ddefnyddio neu y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel annedd neu swyddfa neu safle masnachol sy'n cynnwys dodrefn ac sy'n barod i'w osod
- Cynnal a chadw unrhyw safle newydd neu safle wedi'i addasu sy'n barod i'w roi ar werth neu ei osod
- Cynnal a chadw unrhyw safle arall mewn cyflwr y gellir ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd
- Cynnal a chadw safle amlfeddiannaeth gyda chyfleusterau a rennir neu hostel gwyliau neu hostel i fyfyrwyr neu lety arall ar gyfer daliadaeth neu i'w osod am gyfnod byr.

'**Dibenion domestig**' yn gyffredinol, cyflenwad at ddibenion yfed, golchi, coginio, gwres canolog ac iechyd, fel y'i diffinnir yn Adran 218 o'r Ddeddf.

'**Domestig**' yw unrhyw adeilad neu ran o adeilad y mae pobl yn byw ynddo fel tŷ annedd, p'un a yw'n dŷ annedd preifat neu beidio, neu os yw'n wag, sy'n debygol o gael ei ddefnyddio felly. (Fel y'i disgrifir yn Adran 219 o'r Ddeddf). Yn benodol, mae tŷ yn cynnwys fflat ond nid carafán na chartref symudol sydd wedi'i leoli dros dro.'

'**Dŵr anyfadwy**' yw dŵr na fwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a bennir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

'**Dŵr yfadwy**' yw dŵr y bwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

'**Elifiant masnachol**' yw unrhyw hylif, sy'n cynnwys gronynnau mater mewn daliant ai peidio, a gaiff ei gynhyrchu'n gyfangwbl neu'n rhannol gan fasnach neu ddiwydiant ar safle masnachol, ond nid yw'n cynnwys carthion domestig, fel y'i diffinnir yn Adran 141 o'r Ddeddf.

'**Gwerth Ardrethol**' (GA) yw'r gwerth a ddangosir ar restr brisio'r awdurdod ardrethu o dan Ran V o Ddeddf y Dreth Gyffredinol 1967 ar 31 Mawrth 1990, ac sy'n cynnwys gwerthoedd ardrethol a gynigir ar y dyddiad hwnnw ac sy'n dod yn effeithiol ar 31 Mawrth 1990 neu cyn hynny.

'**Hysbysiad o daliadau mesuredig**' yw cais gan y Cwsmer i'r Cwmni bennu taliadau o ran y cyflenwad yn seiliedig ar faint o ddŵr a gyflenwir. (Fel y'i disgrifir yn Adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1999). Bydd y Cwmni yn derbyn ceisiadau a wneir drwy ein gwefan **dwrcymru.com** neu drwy ein ffonio ar **0800 052 6058**

'**Mesuryddion**' Mae gan fesurydd 'y gellir ei sgriwio i mewn' byrth consentrig er mwyn cysylltu â phibellau (cysylltiad unigol) a dyma'r math a osodir yn gyffredinol ym mlwch ffin safonol y Cwmni. Mae gan fesurydd 'ar y llinell' gysylltiad ar gyfer pibell ar y ddau ben.

'**Pibell gyflenwi**' yw unrhyw ran o bibell wasanaeth nad yw'n ofynnol i'r Cwmni ei gosod o dan Adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

'**Pibell wasanaeth**' yw pibell (neu ran o'r bibell) sy'n cyflenwi dŵr o brif bibell y Cwmni i unrhyw safle, fel y'i diffinnir yn Adran 219 o'r Ddeddf.

'**Safle**' yw adeilad parhaol, ei dir ac atodion neu unrhyw gyfleuster lle y darperir cyflenwad dŵr. Mae adeilad yn cynnwys tŷ neu ran o adeilad y gellir ei feddiannu ar wahân.

'**Safle unigol**' yw safle o fewn un lleoliad.

'**Tâl seilwaith**' yw tâl seilwaith dŵr neu dâl seilwaith carthffosiaeth.

'**Tenantiaeth tymor penodol**' yw unrhyw denantiaeth heblaw tenantiaeth cyfnodol.

# 1. Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw 'Cynllun Taliadau' y Cwmni a luniwyd o dan ddarpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Bydd y taliadau a nodir yn y llyfryn hwn yn gymwys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Yn unol â dyletswydd y Cwmni o dan y Ddeddf a'i Drwydded (yr Offeryn Penodi) fel ymgymerydd gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ei ardal, mae'r Cwmni wedi cymryd camau i sicrhau nad yw'r taliadau'n gwahaniaethu yn erbyn, nac yn ffafrio'n ormodol, unrhyw ddosbarth o gwsmeriaid neu ddarpar gwsmeriaid.

Mae'r Cwmni'n darparu gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth, ac elifiant masnachol i gartrefi, swyddfeydd, busnesau a ffatrïoedd yn yr ardal a nodir ar y map isod.

Lle bo'r Cwmni'n darparu gwasanaethau dŵr yn unig, a chwmni arall sy'n darparu'r gwasanaethau carthffosiaeth, gall bil y Cwmni gynnwys tâl carthffosiaeth ar ran y darparydd arall. Mewn ardaloedd lle mae'r Cwmni ond yn darparu rhwydwaith o garthffosydd, a chwmni arall sy'n darparu'r gwasanaeth dŵr, gall y Cwmni gyflwyno bil am ei wasanaeth carthffosiaeth yn unig, neu gall y darparwr dŵr gynnwys tâl carthffosiaeth ar gyfer y Cwmni yn ei fil (yn dibynnu ar y trefniant rhwng y Cwmni a'r darparwr dŵr).




Gall cwsmeriaid sy'n bwriadu symud i eiddo newydd gysylltu â'r Cwmni drwy ffonio **0800 052 6058** er mwyn canfod ar ba sail y byddent yn talu taliadau ar gyfer yr eiddo.

Mae'r Cwmni'n cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau gwybodaeth i gwsmeriaid am y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Gellir cael manylion y rhain ar ein gwefan **dwrcymru.com**

# 2. Cwynion

Ein nod yw sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf bob tro – ond gwyddom y gall pethau fynd o chwith o bryd i'w gilydd. Ein ffordd ddewisol o ddelio â chwynion yw dros y ffôn, gan mai dyma'r ffordd gyflymaf o'u datrys. Gall cwsmeriaid ein ffonio ar un o'r rhifau canlynol:

### Bilio a chyfrifon
0800 052 6058

### Gwasanaethau ac argyfyngau dŵr
0800 052 0130

### Gwasanaethau ac argyfyngau carthffosiaeth
0800 085 3968

### Y Tîm Cwsmeriaid Busnes (cwsmeriaid Open Water yn unig)
0800 260 5051

Os ydych wedi ein ffonio eisoes a'ch bod am wneud cwyn o hyd, gallwch gysylltu drwy e-bost neu lythyr. I sicrhau bod eich cwyn yn cyrraedd y tîm cywir, defnyddiwch un o'r cyfeiriadau isod. Os na fyddwch yn fodlon ar yr ymateb i'ch cwyn, neu'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, gallwch ysgrifennu atom i ofyn am i un o'n Cyfarwyddwyr gynnal adolygiad. I wneud hyn, cysylltwch â ni eto gan ddefnyddio'r cyfeiriad perthnasol isod:

### Bilio a chyfrifon
dwrcymru.com/cysylltuani

Gwasanaethau Cwsmeriaid Bilio
Dŵr Cymru Welsh Water
Blwch SB 690
CF3 5WL

### Gwasanaethau dŵr
Gwasanaethau Cwsmeriaid Dŵr,
Dŵr Cymru Welsh Water
Blwch SB 3118
CF30 0BY

dwrcymru.com/cysylltuani

### Ymholiadau am garthffosiaeth
Gwasanaethau Cwsmeriaid Carthffosiaeth
Dŵr Cymru Welsh Water
Blwch SB 3118
CF30 0BY

dwrcymru.com/cysylltuani

### Y Tîm Cwsmeriaid Busnes (Open Water)
Y Tîm Cwsmeriaid Busnes
Blwch SB 3162
Caerdydd CF30 0FD

dwrcymru.com/cysylltuani

Os ydyn ni wedi adolygu eich cwyn yn llawn a'ch bod yn credu y gallem fod wedi gwneud mwy, gallwch ofyn i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr adolygu eich achos. Corff annibynnol yw hwn sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ac yn ymchwilio i gwynion. Gallwch fynd i'w gwefan yn ccwater.org.uk, eu ffonio ar 0300 034 3333, neu ysgrifennu atynt yn:

### Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

23 Stephenson Street,
Birmingham,
B2 4BH

Dim ond cwynion sydd eisoes wedi'u cyfeirio at y Cwmni y bydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn ymchwilio iddynt fel rheol. Wrth ysgrifennu atynt, byddai'n ddefnyddiol amgáu copi o'r ymateb a gawsoch gan y Cwmni.

Os yw eich cwyn wedi cael ei hadolygu'n llawn gennym ni a gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, a'ch bod yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â WATRS. Gwasanaeth dyfarnu annibynnol yw WATRS sy'n adolygu anghydfodau rhwng cwsmeriaid a chwmnïau lle nad yw'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr wedi gallu eu datrys a lle na allant wneud rhagor, a hynny am ddim. Mae'r manylion cyswllt yn dilyn; gallwch wneud cais trwy eu gwefan neu ofyn iddynt anfon ffurflen gais atoch.

### WATRS

International Dispute Resolution Centre
70 Fleet Street
Llundain
EC4Y 1EU

0207 123 4567
www.watrs.org

Gellir cyfeirio rhai cwynion at Ofwat. Rhoddir manylion y rhain yn yr adrannau perthnasol o'r llyfryn hwn. Manylion cyswllt Ofwat yw:

### Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (OFWAT)

Centre City Tower
7 Hill Street Birmingham
B5 4UA

0121 644 7500
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Dylai unrhyw ohebiaeth ag Ofwat gynnwys copïau o unrhyw ohebiaeth a gafwyd gyda'r Cwmni a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Mae gwybodaeth am ein gweithdrefn gwyno yn ein llyfryn 'Sut rydyn ni'n delio â'ch cwynion a'ch canmoliaeth'. Mae'r wybodaeth ar gael ar ein gwefan **dwrcymru.com** hefyd.

## 3. Treth ar Werth

Ychwanegir TAW at daliadau cyflenwi dŵr (gan gynnwys dŵr ar gyfer adeiladu) cwsmeriaid y diffinnir eu gweithgareddau diwydiannol o fewn adrannau 1-5 o Ddeddf Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 1980 (SIC). Codir TAW ar y gyfradd sydd mewn grym adeg codi'r bil. Mae taliadau cyflenwi dŵr ar gyfer pob cwsmer arall ar gyfradd o sero at ddibenion TAW.

Mae taliadau carthffosiaeth ar gyfradd o sero at ddibenion TAW oni nodir fel arall.

## 4. Atebolrwydd am daliadau

Mae taliadau am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth yn daladwy am bob safle sy'n derbyn cyflenwad dŵr neu wasanaeth carthffosiaeth, p'un a yw'r cyflenwadau'n cael eu defnyddio ai peidio.

Deiliad yr eiddo sy'n gyfrifol am dalu am y gwasanaethau hyn ac eithrio lle bo cytundeb penodol yn bodoli i dalu'r taliadau rhwng trydydd barti a'r Cwmni. Pan fo mwy nag un deiliad, gall y Cwmni ofyn i unrhyw ddeiliad dalu'r bil yn gyfan os na fydd y deiliaid eraill yn gwneud hynny. Lle bo un mesurydd yn gwasanaethu dau eiddo neu ragor, bydd y taliadau'n daladwy gan yr unigolyn mae'r Cwmni'n ei glustnodi fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am y mesurydd. Cyfrifoldeb y gwahanol ddeiliaid yw rhannu'r bil a chasglu'r arian.

Y deiliad sy'n gyfrifol am hysbysu'r Cwmni am unrhyw newid o ran y bobl sy'n byw yno ar y cyfan. Ers 1 Ionawr 2015, (o dan Reoliadau'r Diwydiant Dŵr (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchnogion) 2014), perchennog eiddo domestig sy'n gyfrifol am hysbysu'r Cwmni am y bobl sy'n byw yn yr eiddo. Felly, ar ôl hysbysu'r tenantiaid eu bod yn darparu'r wybodaeth hon ac y bydd y Cwmni'n ei ddefnyddio at ddibenion yr holl ofynion bilio, gan gynnwys casglu dyledion, olrhain a gorfodi (lle bo'n briodol), rhaid i landlordiaid ddarparu'r manylion canlynol ar gyfer y Cwmni:

- enw llawn pob oedolyn sy'n byw yn yr eiddo
- dyddiad geni pob oedolyn sy'n byw yn yr eiddo (pan fo'r wybodaeth hon ar gael i'r perchennog)
- y dyddiad neu'r dyddiadau y daethant i fyw yno.

Ynghyd â manylion y landlord, daw'r wybodaeth yma'n rhan o gofnodion cwsmer y Cwmni a gellir ei defnyddio at ddibenion eraill gan gynnwys gweinyddu'r cyfrif, tariffau, talu biliau, gwella gwasanaethau a gofynion rheoliadol.

Os bydd perchennog yn methu â hysbysu'r Cwmni cyn pen 21 diwrnod fod cwsmer yn byw yn yr eiddo, yna daw'r perchennog, ar y cyd ac yn unigol, yn atebol am y taliadau dŵr a charthffosiaeth hyd nes y darperir y manylion hyn.

Y ffordd hawsaf i berchnogion ddarparu'r wybodaeth yma yw trwy'r Porth Cyfeiriadau Landlordiaid a Thenantiaid yn www.landlordtap.co.uk

Fel arall, gallant gysylltu â'r Cwmni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Gwefan: **dwrcymru.com**

Ffôn: **0800 052 6058**

Bydd cwsmer sy'n derbyn gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth yn parhau i fod yn atebol am y taliadau llawn tra bod y safle'n cynnwys dodrefn a/neu ffitiadau, yn cael ei adnewyddu neu'n cael ei ddefnyddio fel arall. Bydd taliadau'n aros yr un fath oni wneir cais i ddatgysylltu'r cyflenwad dŵr, fodd bynnag, gellir codi taliadau draenio dŵr wyneb o hyd.

Ni chodir tâl lle y gellir dangos bod yr eiddo'n wag am resymau eithriadol (e.e. cyfnod hir yn yr ysbyty).

Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i ofyn i gwsmeriaid annomestig dalu ernes arian parod neu fath arall o daliad sicrwydd. Bydd yr ernes gyfwerth â thaliadau un cylch bilio plws tri mis. Fel arfer bydd taliadau cyfartalog yn seiliedig ar ddefnydd go iawn y flwyddyn flaenorol neu, yn achos cwsmeriaid newydd, ar amcangyfrif rhesymol o daliadau'r flwyddyn gyfredol.

Efallai y bydd angen talu'r ernes os yw'r Cwmni o'r farn ei bod yn rhesymol briodol o ystyried hanes talu'r cwsmer, ei statws credyd (os oes un yn bodoli) a'i adnoddau ariannol, ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i allu neu barodrwydd y cwsmer i dalu am y gwasanaethau a ddarperir. Gall y Cwmni adolygu'r gofyniad am dalu ernes neu am y swm a gedwir ar gais y cwsmer er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y gwasanaethau a ddarperir, neu newidiadau yn statws credyd y cwsmer.

Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i addasu taliadau yn ôl-weithredol mewn achosion o wall neu dwyll.

# 5. Sut y byddwn ni'n codi tâl arnoch

## Mesuredig

Mae gan bob eiddo a adeiladwyd ers 1 Ebrill 2000 fesurydd, ac mae mesuryddion mewn eiddo eraill lle gofynnwyd am un. Bydd biliau mesuredig yr eiddo hyn yn seiliedig ar faint o ddŵr a ddefnyddiwyd. Os symudwch i eiddo â mesurydd, ni chewch ddychwelyd i dalu ar sail anfesuredig.

O dan amodau penodol, mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i osod mesurydd mewn eiddo lle bo tystiolaeth bod llawer o ddŵr ychwanegol yn cael ei ddefnyddio. Rhaid bod mesurydd mewn eiddo â phwll nofio sy'n cael ei adlenwi'n awtomatig ac mewn eiddo sy'n defnyddio dyfeisiau dyfrio awtomatig (h.y. nid pibellau dyfrio â llaw).

Mae biliau mesuredig yn seiliedig ar y defnydd go iawn a nodir ar y mesurydd, neu ar amcangyfrif os na chymerwyd darlleniad o'r mesurydd. Nod y Cwmni yw darllen ei holl fesuryddion o leiaf unwaith y flwyddyn, ond os na chymerir darlleniad, gall y Cwmni ofyn i'r cwsmer ddarparu darlleniad os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Lle nad yw'r Cwmni'n darparu'r cyflenwad dŵr glân, ond yn darparu bil carthffosiaeth yn unig ar sail fesuredig wedi ei gyfrifo gan ddefnyddio mesurydd dŵr sy'n eiddo i Severn Trent Water (ST) neu United Utilities North West Water (UU), bydd y cwmni'n defnyddio'r darlleniadau y mae ST neu UU yn eu darparu ar ei gyfer. Os na ddarperir darlleniad, neu os nad yw'r darlleniad yn un diweddar, bydd y Cwmni'n amcangyfrif y defnydd, neu gall ofyn i'r cwsmer ddarparu darlleniad os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Ar y cyfan, po fwyaf o ddŵr a ddefnyddir, po fwyaf fydd y bil. Fel arfer codir tâl am garthffosiaeth ar sail y dybiaeth bod 95% o'r dŵr a ddefnyddir yn dychwelyd i'r garthffos. Lle bo bil mesuredig yn cwmpasu cyfnod cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2023, byddwn ni'n defnyddio cyfraddau 2022/23 am y dŵr a ddefnyddiwyd cyn 1 Ebrill, a chyfraddau 2023/24 am y dŵr a ddefnyddiwyd o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Mae gennym yr hawl i osod mesurydd ar bob safle annomestig, gan gynnwys unrhyw gyflenwadau preifat sy'n rhyddhau i'n carthffos. Mae'r tâl mesuredig yn ymrannu'n dair elfen:

**Cyflenwi dŵr** — sy'n seiliedig ar y defnydd o ddŵr a gofnodir gan y mesurydd mewn metrau ciwbig. Gellir codi tâl am yr holl ddŵr a ddefnyddir ac eithrio dŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân. Gellir codi tâl am ddŵr a ddefnyddir ar gyfer profion ac ymarferion tân, oni bai bod y Cwmni'n cael 7 diwrnod o rybudd ysgrifenedig yn y cyfeiriad post a nodir yn Adran 2.

**Carthffosiaeth** – mae hyn eto'n seiliedig ar y defnydd o ddŵr y mae'r mesurydd yn ei gofnodi. Mae'r tâl carthffosiaeth yn cynnwys tâl am ddŵr wyneb a draenio priffyrdd. Mae hyn yn cynnwys y gost o ddraenio, trin a gwaredu dŵr glaw. Os nad yw eich dŵr glaw yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, ni fydd angen i chi dalu'r elfen dŵr wyneb. Gallwch ofyn am ffurflen Ad-daliad Draenio Dŵr Wyneb ar ein gwefan **dwrcymru.com** neu trwy ffonio **0800 052 6058** (0800 260 5051 i gwsmeriaid Open Water). Bydd unrhyw ad-daliad yn effeithiol o 1 Ebrill 2018 neu o ddyddiad meddiannu'r eiddo os yw hynny'n hwyrach. Lle bo'n glir nad yw'r dŵr wyneb yn dychwelyd i'r garthffos, fel mewn fflatiau mewn adeilad cyffredin, gall y cwmni hysbysu'r cwsmeriaid yn rhagweithiol ac addasu eu taliadau yn unol â hynny. Er ein bod yn parhau i adolygu'r opsiwn o gynnig ad-daliadau rhannol i gwsmeriaid sy'n gwneud ymdrech i leihau eu gollyngiadau dŵr wyneb yn gyson, byddai angen datrys nifer o faterion gweithredol cyn y gellid cynnig unrhyw ad-daliad o'r fath.

Am hynny, dim ond ad-daliadau llawn y mae'r cwmni'n eu cynnig ar hyn o bryd. Am nad yw'r Cwmni'n codi tâl am ddraenio dŵr wyneb fesul ardal, ni chynigir unrhyw ostyngiadau i grwpiau cymunedol heblaw am yr ad-daliad llawn

Yn achos y rhan fwyaf o gwsmeriaid, rydyn ni'n tybio bod yr holl ddŵr fwy neu lai yn dychwelyd i'r garthffos, heblaw, er enghraifft, dŵr a ddefnyddir wrth goginio neu ddyfrio'r ardd. Felly cyfrifir elfen garthffosiaeth y bil mesuredig ar sail tua 95% o'r holl ddŵr a ddefnyddir.

Lle defnyddir llai na 10m³ o ddŵr mewn unrhyw gyfnod bilio, codir y tâl llawn at ddibenion carthffosiaeth. Os ydych chi, fel busnes, yn credu bod llai na 95% o'ch dŵr yn dychwelyd i'r garthffos a'ch bod yn gallu profi hynny trwy ei fesur, gallwch hawlio gostyngiad yn eich taliadau carthffosiaeth. Mae ffurflenni cais am lwfans am beidio â dychwelyd dŵr i'r garthffos ar gael ein gwefan **dwrcymru.com** neu trwy ffonio **0800 052 6058** (0800 260 5051 i gwsmeriaid Open Water). Y dyddiad effeithiol ar gyfer unrhyw hawliad fydd 1 Ebrill yn y flwyddyn filio pan ddaw'r cais i law.

**Tâl Gwasanaeth** – sy'n cael ei gyfrifo ar sail ddyddiol ac sy'n seiliedig ar faint y mesurydd.

Mae'r tâl gwasanaeth yn cynnwys costau darllen, cynnal a chadw a gosod mesuryddion newydd; a chynnal a chadw ein rhwydwaith dŵr a charthffosiaeth ar led sy'n cynnwys cronfeydd dŵr, gweithfeydd trin, pibellau, gorsafoedd pwmpio ac ati.

## Ailddatblygu safleoedd

Nid yw unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir yn rhoi'r hawl i gwblhau unrhyw waith ar ein rhwydwaith o garthffosydd cyhoeddus na'n rhwydwaith o brif bibellau dŵr. Rhaid i ni roi caniatâd i wneud hyn.

Os oes unrhyw waith ailddatblygu'n cael ei wneud, er enghraifft i uno neu wahanu eiddo neu unedau, cyfuno dau dŷ yn un, trosi dau fflat yn dri; rhaid adeiladu pob un â'i gysylltiad dŵr uniongyrchol unigol ei hun â'r rhwydwaith dŵr (â mesurydd) a rhaid i bob un fod â chaniatâd i ddraenio i'r rhwydwaith carthffosiaeth. Gall ein tîm ar **0800 917 2652** gynnig cyngor pellach neu mae cyngor ar gael ar **dwrcymru.com**

Os ceir newid sylweddol o ran defnydd, er enghraifft wrth drosi Capel yn gartref, yna mae angen trefnu'r cyflenwad fel y gellir gosod mesurydd arno.

Rhaid i bob cwsmer dalu costau creu'r cysylltiadau neu am unrhyw addasiadau i'r pibellwaith. Os na fyddant yn gwneud hynny, gall y Cwmni gyflawni'r gwaith angenrheidiol ac adfer y costau.

Os nad yw mesurydd yn ymarferol, neu nes y gellir gosod mesurydd, gallwn asesu'r gwerth talu neu'r taliad naill ai'n seiliedig ar Dâl Gwasanaeth Unffurf neu Dâl Mesuredig ar Sail Asesiad, ar yr amod bod y cwsmer yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Yn achos cysylltiad diawdurdod, bydd y Cwmni'n cymryd pob cam cyfreithiol priodol ac yn ceisio pob datrysiad sifil priodol.

## Mesurydd Opsiynol

Gall cwsmeriaid domestig ofyn am osod mesurydd ar eu cyflenwad (ac eithrio tenantiaid domestig dan denantiaeth tymor penodol o lai na chwe mis, lle gall fod angen cydsyniad i wneud hynny yn unol â thelerau'r cytundeb tenantiaeth). Gellir cyflwyno cais i osod mesurydd trwy ein gwefan **dwrcymru.com** neu trwy ein ffonio ni ar **0800 052 6058**. Mae cyfrifiannell hwylus ar gael ar ein gwefan i helpu cwsmeriaid i weld a fyddai'n fuddiol iddynt osod mesurydd ai peidio.

Ar ôl cael hysbysiad taliadau mesuredig, bydd y Cwmni'n gosod mesurydd am ddim ar yr amod bod hynny'n rhesymol ymarferol ac na fyddai'n tynnu costau afresymol. Byddai costau afresymol yn cynnwys cost rhannu pibell gyflenwi gyffredin y cwsmer, cost gwneud addasiadau sylweddol i'r gwaith plymio er mwyn caniatáu i'r mesurydd gael ei osod, neu gost gosod mesuryddion ychwanegol os oes gan y cwsmer fwy nag un cyflenwad.

Bydd y Cwmni'n gosod y mesurydd cyn pen 3 mis ar ôl i'r cais ddod i law. Os bydd y Cwmni'n methu â chyflawni'r safon hon bydd y cwsmer naill ai'n derbyn taliad o £20 am bob mis ychwanegol y tu hwnt i'r dyddiad gosod targed, neu bydd Tâl Mesuredig ar sail Asesiad yn cymryd lle eu taliadau anfesuredig safonol er mwyn lleihau eu bil nes bod y mesurydd yn cael ei osod. Ni fydd y taliad neu'r gostyngiad yn y bil yn berthnasol os bydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cwmni'n atal y mesurydd rhag cael ei osod. Fel arfer, bydd y Cwmni'n gosod y mesurydd y tu allan i'r safle mewn blwch ffin. Gall y cwsmer ofyn i'r Cwmni osod y mesurydd mewn lleoliad arall (ar yr amod bod y Cwmni'n ystyried ei fod yn ymarferol gwneud hynny), ond byddai hynny'n golygu taliad ychwanegol gan y cwsmer. Rhoddir manylion y taliad hwnnw ar gais.

Hwyrach na fydd y taliad yn berthnasol i gwsmeriaid cymwys sydd ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.

Codir taliadau ar sail anfesuredig ar y cwsmer nes bod y mesurydd wedi ei osod. Mae'r mesurydd yn aros yn eiddo i'r Cwmni.

Gall cwsmeriaid annomestig ofyn i'r Cwmni osod mesurydd ar eu cyflenwad gan ddilyn y broses uchod hefyd. Gellir gwneud cais am osod mesurydd ar ein gwefan **dwrcymru.com** neu drwy ein ffonio ar **0800 052 6058** (0800 260 5051 i gwsmeriaid Open Water).

Rhoddir lwfans untro i gwsmeriaid domestig yn erbyn eu taliadau dŵr mewn perthynas â dŵr mesuredig a gollwyd ar ôl trwsio gollyngiad ar ran y cwsmer o'r bibell wasanaeth.

Yn achos safleoedd defnydd cymysg h.y. safle annomestig wedi'i gyfuno â safle domestig, er enghraifft cyflenwad fferm sy'n cynnwys ffermdy, neu dafarn gyda fflat uwchben, rhoddir lwfans dŵr ar gyfer elfen ddomestig y bil yn unig. Rydyn ni'n cyfrifo'r lwfans ar gyfer yr elfen ddomestig ar sail y ffigurau defnydd blynyddol a ddefnyddiwn wrth gyfrifo ein tariff domestig ar sail asesiad. Ni roddir lwfansau dŵr i gwsmeriaid annomestig.

Gall cwsmeriaid domestig a chwsmeriaid annomestig fod yn gymwys i gael lwfans carthffosiaeth ar gyfer y gollyngiad cyntaf a gollyngiadau dilynol lle nad yw'r dŵr a gollwyd o ganlyniad i ollyngiad wedi dychwelyd i'r garthffos. Rhaid gwneud cais am lwfans cyn pen chwe mis ar ôl i'r gollyngiad gael ei drwsio. Ni chaniateir lwfans os achoswyd y gollyngiad trwy esgeulustod y cwsmer neu rywun yn gweithredu ar ei ran.

Gellir cael rhagor o fanylion yng nghyhoeddiadau'r Cwmni 'Cod Ymarfer Gollyngiadau' 'Gollyngiadau Dŵr – yr hyn sydd angen i chi ei wneud' ac 'Eich Mesurydd Dŵr'. Mae copïau o'r cyhoeddiadau hyn ar gael ar ein gwefan yn **dwrcymru.com** neu drwy ein ffonio ar **0800 052 6058** (0800 260 5051 os ydych yn gwsmer Open Water). Os oes unrhyw ymholiad neu anghydfod yn codi am unrhyw agwedd ar osod y mesurydd, dylech gysylltu â ni yn y lle cyntaf ar **0800 052 6058** (0800 260 5051 i gwsmeriaid Open Water).

Anfonir biliau mesuredig domestig bob chwe mis ar ffurf ôl-daliad fel rheol ac maent yn daladwy ar unwaith heblaw lle gwnaed trefniant amgen gyda'r Cwmni. Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i bennu amlder biliau cwsmeriaid annomestig. Fodd bynnag, ar y cyfan, caiff cwsmeriaid annomestig eu bilio bob chwe mis hefyd, neu bob chwarter os yw'r taliadau cyfunol am ddŵr a charthffosiaeth yn fwy na £750 bob chwarter, neu bob mis os yw'r taliadau cyfunol am ddŵr a charthffosiaeth yn fwy na £2,000 y mis.

## Tâl Mesuredig ar sail Asesiad — Domestig

Gall cwsmer domestig ddewis talu'r tâl mesuredig ar sail asesiad (AMC) os na fyddai'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd, neu lle byddai gosod mesurydd yn afresymol o ddrud. Mae'r AMC yn seiliedig ar fand y taliadau dŵr, nifer y deiliaid a'r dybiaeth bod 95% o'r dŵr yn cael ei ryddhau i'r garthffos. Pan fydd y deiliad yn newid, caiff y tâl mesuredig ar sail asesiad ei ail-gyfrifo'n seiliedig ar y deiliaid newydd.

## Dychwelyd i daliadau anfesuredig — Domestig

Gall unrhyw gwsmer domestig sy'n newid i fesurydd opsiynol neu AMC, ar unrhyw adeg hyd at fis ar ôl i'r Cwmni anfon biliau am 24 mis ar ôl dyddiad gosod y mesurydd neu gychwyn y tâl mesuredig ar sail asesiad, wneud cais i ddychwelyd i daliadau ar sail anfesuredig, ar yr amod nad yw'r cwsmer wedi trefnu i fesurydd gael ei osod neu dalu ar sail ar y taliad mesuredig ar sail asesiad o'r blaen, ac nad yw'r cyflenwad yn destun mesur gorfodol.

Os bydd cwsmer yn symud i eiddo lle mae mesurydd eisoes, nid oes rhwymedigaeth ar y cwmni i'w ddychwelyd i sail anfesuredig.

## Tâl Mesuredig ar sail Asesiad — Annomestig

Pan nad yw'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd, neu lle byddai'n afresymol o ddrud gwneud hynny, gall y Cwmni godi tâl ar sail asesiad. Mae'r AMC yn seiliedig ar y band taliadau dŵr a bennir ar sail y math o fusnes a'r dybiaeth bod 95% o'r dŵr yn cael ei ryddhau i'r garthffos. Pan fydd y deiliad yn newid, bydd y safle'n parhau ar yr AMC ond gellir ailasesu'r band yn seiliedig ar natur busnes y deiliad newydd.

## Eiddo â system taenellwr tân domestig

Codir tâl ar sail fesuredig ar eiddo lle gosodwyd system taenellwr tân domestig o dan Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 yn seiliedig ar y dŵr a ddefnyddir. Ni chodir tâl am ddŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân.

## Tariff Diwydiannol

Lle bo cwsmeriaid yn defnyddio llawer o ddŵr ar un safle (50,000 metr ciwbig/50Ml) a/neu yn rhyddhau 100,000 metr ciwbig (100 Ml) neu ragor o garthffosiaeth o un safle mewn blwyddyn, gallant ddewis un o fandiau'r tariff diwydiannol. Bydd pob band yn berthnasol i'r holl ddŵr a ddefnyddir ac a ryddheir rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 ac mae'n cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn
- Tâl gwasanaeth blynyddol am bob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle sy'n seiliedig ar faint y mesurydd
- Tâl cyfeintiol ar gyfer yr holl ddŵr a ddefnyddir

Fel arfer codir y tâl o ddiwrnod cyntaf y mis pan ddaw'r cais i law, a bydd yn parhau ym mlynyddoedd y dyfodol oni bai bod y cwsmer yn cyflwyno cais ysgrifenedig, ymlaen llaw i newid y band.

Ni fydd y Cwmni'n derbyn mwy nag un cais i newid tariff unrhyw safle unigol o fewn mis calendr.

## Tariff Elifiant Masnachol

Caniateir i fasnachwyr ollwng elifiant masnachol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i garthffos gyhoeddus ar yr amod bod y Cwmni wedi rhoi caniatâd elifiant masnachol iddynt. Bydd cytundeb o'r fath yn nodi'r amodau o ran maint ac ansawdd, ac yn mynnu bod yr elifiant yn cael ei samplu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amodau. Bydd y taliadau mewn grym o ddyddiad rhoi'r caniatâd elifiant Masnachol ymlaen. Gellir rhyddhau

elifiant i weithfeydd trin carthion neu trwy ollyngfa i'r môr.

Ceir dau fath o daliadau elifiant:

– Y tariff safonol ar gyfer rhyddhau llai na 100Ml y flwyddyn
– Y tariff diwydiannol ar gyfer rhyddhau mwy na 100Ml y flwyddyn

Mae taliadau elifiant masnachol yn cynnwys tâl sefydlog a thaliadau amrywiol sy'n amrywio yn ôl cyfaint a chryfder samplau'r elifiant a ryddheir.

Gellir codi tâl am garthffosiaeth ddomestig hefyd, a gyfrifir fel arfer ar sail y cyfleusterau, nifer y bobl a nifer y diwrnodau gwaith, a chaiff bil ei anfon trwy gyfrif ar wahân ynghyd ag unrhyw daliadau dŵr a gaiff eu bilio gan y Cwmni hefyd.

Anfonir biliau Elifiant Masnachol naill ai bob Mis, bob Chwarter neu bob Chwe Mis, yn dibynnu ar amledd y biliau a briodolwyd i'ch taliadau dŵr a/neu garthffosiaeth. Mae'r taliadau'n daladwy cyn pen 14 diwrnod ar ôl anfon y bil, a gellir eu talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, BACS neu â siec.

## Anfesuredig

Codir taliadau anfesuredig os adeiladwyd yr eiddo cyn 1 Ebrill 2020, os nad yw'r eiddo wedi cael ei ailddatblygu, os nad yw'r defnydd wedi newid, os nad yw'n destun mesurydd gorfodol, os nad oes mesurydd wedi ei osod ar hyn o bryd neu os nad yw'n destun tâl mesuredig (ar sail asesiad neu fel arall). Ni fydd y tâl yn adlewyrchu faint o ddŵr a ddefnyddir.

Mae dwy ffordd o gyfrifo taliadau anfesuredig:

**Tâl gwerth ardrethol** – tâl sefydlog, plws tâl fesul punt o werth ardrethol am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth.

NEU

**Tâl gwasanaeth unffurf** (ar gyfer eiddo a adeiladwyd rhwng 1 Ebrill 1990 a 31 Mawrth 2000) – bydd y taliadau'n seiliedig ar werth ardrethol cyfartalog eiddo yng Nghymru.

Mae taliadau dŵr yn cynnwys costau cyflenwi dŵr i'r eiddo.

Mae taliadau carthffosiaeth yn cynnwys y gost o gludo'r dŵr a ddefnyddiwyd i ffwrdd, ei drin a'i waredu, gan gynnwys tâl ar gyfer dŵr wyneb a draenio priffyrdd. Mae hyn yn cynnwys cost draenio, trin a gwaredu dŵr glaw. Os nad yw eich dŵr glaw yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, ni chodir tâl arnoch am yr elfennau hyn. Mae'r ffurflen Ad-daliad Draenio Dŵr Wyneb ar gael ar ein gwefan **dwrcymru.com** neu gallwch ofyn am ffurflen drwy ein ffonio ar **0800 052 6058**. Bydd unrhyw ad-daliad yn effeithiol o 1 Ebrill 2018 neu o ddyddiad meddiannu'r eiddo os yw hynny'n hwyrach. Lle bo'n glir nad yw'r dŵr wyneb yn dychwelyd i'r garthffos, fel mewn fflatiau mewn adeilad cyffredin, gall y cwmni hysbysu'r cwsmeriaid yn rhagweithiol ac addasu eu taliadau yn unol â hynny.

Fel arfer caiff biliau anfesuredig eu hanfon ym mis Chwefror/Mawrth bob blwyddyn ac maent yn daladwy ar 1 Ebrill heblaw lle gwnaed trefniadau talu amgen gyda'r Cwmni. Lle telir y taliadau anfesuredig yn llawn erbyn 1 Ebrill 2023, bydd y Cwmni'n tynnu 1.5% oddi ar y bil blynyddol nesaf.

## Tariffau Cymorth Fforddiadwyedd

Mae'r Cwmni'n cynnig amrywiaeth o Dariffau Cymorth Fforddiadwyedd â'r nod o gadw biliau'n fforddiadwy i gwsmeriaid ag incwm isel neu gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Ceir manylion cymhwysedd a sut y gall cwsmeriaid wneud cais ar ein gwefan **dwrcymru.com/cymorthgydabiliau** neu trwy ffonio **0800 052 6058**.

# 6. Sut i dalu

Gall cwsmeriaid dalu ar lein yn **dwrcymru.com** (trwy Ddebyd Uniongyrchol neu â cherdyn Credyd/Debyd) neu trwy ddefnyddio'r Llinell Dalu Awtomataidd 24 Awr **0800 028 5209**. Cofiwch fod â'ch cyfeirnod cwsmer wrth law.

Mae rhestr lawn o'r opsiynau talu a gwybodaeth am ble i dalu isod ac ar gefn eich bil.

## Debyd uniongyrchol

Gall cwsmeriaid drefnu cynllun debyd uniongyrchol ar lein yn **dwrcymru.com** neu trwy gysylltu â ni ar **0800 052 5604**. Gellir talu debydau uniongyrchol bob blwyddyn, ddwywaith y flwyddyn, bob mis neu bob wythnos.

Gall cwsmeriaid â mesurydd dalu ar bron unrhyw ddyddiad o'r mis os byddant yn dewis talu bob mis, neu erbyn dyddiad y cytunir arno gyda'r cwsmer os byddant yn talu ddwywaith y flwyddyn.

Caiff y taliad ei hawlio 14 diwrnod ar ôl codi'r bil, a dyddiad darllen y mesurydd fydd yn pennu pryd fydd hynny. Gall cwsmeriaid anfesuredig dalu ar bron unrhyw ddyddiad o'r mis os ydynt yn dewis talu bob mis, ar 1 Ebrill ac 1 Hydref os byddant yn talu ddwywaith y flwyddyn, neu ar 1 Ebrill os byddant yn talu bob blwyddyn.

## Cardiau credyd/debyd

Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio eu cardiau debyd/credyd unrhyw bryd, naill ai ar-lein yn **dwrcymru.com**, neu drwy ffonio ein llinell dalu awtomataidd ar **0800 028 5209**.

Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio'r rhan fwyaf o gardiau credyd/debyd naill ai'n llawn neu mewn rhandaliadau pan fydd y taliad yn ddyledus. Cofiwch fod â'ch cyfeirnod cwsmer wrth law.

## Cerdyn talu

Gall cwsmeriaid sy'n defnyddio cerdyn talu dalu bob mis, bob pythefnos neu bob wythnos mewn swyddfa bost neu drwy ddefnyddio gwasanaeth PayPoint.

## Taliadau arian parod

Gall cwsmeriaid sy'n talu gydag arian parod wneud hynny naill ai'n llawn neu mewn rhandaliadau drwy ddefnyddio'r bonyn talu ar y bil neu'r cerdyn talu:

- Mewn swyddfa bost neu fanc (am ddim mewn unrhyw gangen o NatWest neu ym manc y cwsmer ei hun)
- Trwy wasanaeth PayPoint
- Trwy swyddfeydd rhai awdurdodau lleol (dim ond rhai awdurdodau lleol sy'n derbyn taliadau).

## Bancio ar y We/Dros y Ffôn neu trwy BACS

Gall cwsmeriaid dalu drwy fancio ar y we, dros y ffôn neu trwy gredyd BACS uniongyrchol.

Os ydych chi'n talu o gyfrif banc yn y DU, bydd angen y canlynol arnoch:

Cod didoli: 522107

Rhif y cyfrif: 01500007

Os ydych chi'n talu o gyfrif tramor, bydd angen y canlynol arnoch:

Rhif IBAN: GB51 NWBK 5221 0701 5000 07

Rhif BIC: NWBK GB 2L

Wrth wneud eich taliad, nodwch eich rhif cyfeirnod cwsmer 10 neu 12 digid sydd i'w weld ar unrhyw fil neu lythyr gennym. Dyma sut rydyn ni'n anfon eich taliad i'r cyfrif dŵr cywir.

## Water Direct

Os ydych chi'n derbyn budd-daliadau, gallech dalu'n uniongyrchol trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau ac arbed £25 y flwyddyn ar eich bil.

## Talu mewn rhandaliadau

Gall cwsmeriaid preswyl a'r cwsmeriaid dibreswyl hynny nad ydynt yn talu TAW ar eu taliadau ac nad oes ganddynt ôl-ddyledion adeg cyflwyno'r cais dalu mewn rhandaliadau. Os na fyddwch yn talu unrhyw randaliad erbyn y dyddiad dyledus yna gallwn ddileu'r cynllun rhandaliadau heb rybudd, a bydd balans y taliadau sy'n ddyledus yn daladwy ar unwaith.

Mae manylion y gwahanol opsiynau talu a gwybodaeth am ble i dalu ar gefn eich bil hefyd.

## Cael trafferth talu?

Rydyn ni'n cydnabod y gall amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth effeithio ar ein cwsmeriaid o bryd i'w gilydd, ac y gall hyn achosi trafferthion ariannol dros dro neu hirdymor iddynt. Waeth beth fo'r sefyllfa, mae'n bwysig bod cwsmeriaid domestig ac annomestig yn cysylltu â ni drwy ffonio **0800 052 6058** (0800 260 5051 i gwsmeriaid Open Water).

Efallai y byddwn ni'n gallu trefnu bod cwsmeriaid yn talu mewn rhandaliadau bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis. Efallai y gallwn leihau taliadau cwsmeriaid os ydyn nhw'n gymwys i gael un o'r Tariffau Cymorth Fforddiadwyedd. Mae manylion y rhain ar ein gwefan **dwrcymru.com/cymorthgydabiliau**

Mae gennym Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid hefyd a all gynnig cymorth ariannol i gwsmeriaid preswyl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster ac sydd ag ôl-ddyledion.

Am ragor o wybodaeth, gall cwsmeriaid fynd i'n gwefan **dwrcymru.com** neu ein ffonio ar **0800 052 6058**.

Byddem hefyd yn annog pob cwsmer sy'n cael trafferth gyda dyledion neu incwm isel i ystyried cysylltu â chwmni sy'n cynnig cyngor am ddim ar ddyledion. Gall y sefydliadau hyn helpu i sicrhau bod cwsmeriaid yn gwneud y gorau o'u cyllidebau, eu budd-daliadau a'u cysylltiadau â'u credydwyr. Os oes angen cyngor annibynnol ar gwsmeriaid, gallant gysylltu ag asiantaeth gynghori leol fel:

### Y Llinell Ddyledion Genedlaethol
Rhadffon: 0808 808 4000
www.nationaldebtline.org

### Step Change
Rhadffon: 0800 138 1111
www.stepchange.org

### Cyngor ar Bopeth
Chwiliwch yn eich 'Yellow Pages' lleol neu gyfeirlyfr lleol Thomson am gyfeiriadau a rhifau ffôn
www.citizensadvice.org.uk

### Cyngor Cyfreithiol Sifil
Ffôn: 0345 345 4345
www.gov.uk/civil-legal-advice

### Shelter Cymru
Ffôn: 0845 075 5005
www.sheltercymru.org.uk

Waeth beth fo'r sefyllfa, mae'n bwysig bod cwsmeriaid yn cysylltu â'r Cwmni ar unwaith.

### Cwsmeriaid sy'n cytuno i unrhyw weithdrefn ansolfedd ffurfiol
Pan fydd Cwsmer yn cytuno i unrhyw weithdrefn ansolfedd ffurfiol, bydd y Cwmni'n dosrannu unrhyw daliadau'n ddyddiol hyd at ddyddiad sy'n union cyn y dyddiad pan daw'r weithdrefn ansolfedd berthnasol i rym ('dyddiad yr ansolfedd'). Bydd unrhyw daliadau a ddosrennir ar ôl dyddiad yr ansolfedd yn daladwy gan ddeiliad yr eiddo dan sylw, a byddant yn gymwys o'r diwrnod nesaf o ddeiliadaeth ar ôl dyddiad yr ansolfedd. Ni fydd unrhyw daliadau wedi'u dosrannu o'r fath yn dod o dan y weithdrefn ansolfedd. Bydd y taliadau'n daladwy gan y deiliad ar yr un telerau talu a fyddai'n gymwys petai'r eiddo wedi cael ei gysylltu am y tro cyntaf ar y diwrnod hwnnw.

# 7. Dogfennau eraill am daliadau

Mae Dŵr Cymru'n cyhoeddi'r cynlluniau taliadau canlynol hefyd;

**Y Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu**
Taliadau ar gyfer safleoedd cymwys y gellid eu cyflenwi â dŵr trwy awdurdodiad adwerthu cyfyngedig.

**Cynllun Taliadau'r Gwasanaethau Datblygu**
Taliadau am gysylltiadau newydd a gweithgareddau eraill i gynorthwyo datblygwyr.

**Gwybodaeth am Daliadau ar gyfer Apwyntiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs)**
Y fethodoleg ar gyfer codi taliadau swmpgyflenwi a thaliadau perthnasol eraill ar gyfer NAVs.

# 8. Taliadau domestig

## Taliadau anfesuredig safonol

| **Gwasanaethau dŵr anfesuredig** | **(£)** |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 138.23 |
| Tâl ar sail GA - fesul punt o GA | 1.0877 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 279.63 |

| **Gwasanaethau carthffosiaeth anfesuredig** | **(£)** |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 215.36 |
| Tâl Sefydlog – Dŵr budr yn unig | 163.56 |
| Tâl ar sail GA - fesul punt o GA | 1.6992 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 436.26 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf – Dŵr budr yn unig | 384.46 |
| Dŵr Wyneb yn unig – gan gynnwys draenio priffyrdd<br>(Ni chodir tâl am eiddo â gwerth ardrethol o £25 neu lai) | 52.59 |

## Taliadau mesuredig safonol

| | **Dŵr (£)** | **Carthffosiaeth (£)** |
|---|---|---|
| Cyfradd gyfeintiol safonol fesul metr ciwbig | 1.4526 | 1.9534 |
| Cyfradd gyfeintiol carthffosiaeth – Dŵr budr yn unig fesul metr ciwbig | | 1.9534 |

| **Tâl Gwasanaeth** | **Dŵr (£)** | **Carthffosiaeth (£)** | **Carthffosiaeth – Dŵr Budr yn unig (£)** |
|---|---|---|---|
| Llai na 30mm | 40.51 | 110.82 | 76.22 |
| 30mm | 40.51 | 110.82 | 76.22 |
| 40mm | 40.51 | 110.82 | 76.22 |

## Taliadau mesuredig ar sail asesiad

| Dŵr | Band A – Defnydd cyfartalog<br>Ar sail unedau llwytho/teclynnau yn yr eiddo | | Band B – Defnydd isel<br>Ar sail unedau llwytho/teclynnau yn yr eiddo | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y deiliaid** | **Tâl blynyddol (£)** | **Defnydd a Aseswyd ($m^3$/blwyddyn)** | **Tâl blynyddol (£)** | **Defnydd a Aseswyd ($m^3$/blwyddyn)** |
| 1 | 134.93 | 65 | 111.68 | 49 |
| 2 | 174.15 | 92 | 145.10 | 72 |
| 3 neu ragor | 220.63 | 124 | 185.77 | 100 |

| Carthffosiaeth | Band A – Defnydd cyfartalog<br>Ar sail unedau llwytho/teclynnau yn yr eiddo | | Band B – Defnydd isel<br>Ar sail unedau llwytho/teclynnau yn yr eiddo | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y deiliaid** | **Tâl blynyddol Llawn (£)** | **Tâl blynyddol Dŵr Budr yn unig (£)** | **Tâl blynyddol Llawn (£)** | **Tâl blynyddol Dŵr Budr yn unig (£)** |
| 1 | 231.45 | 196.85 | 201.75 | 167.15 |
| 2 | 281.55 | 246.95 | 244.43 | 209.83 |
| 3 neu ragor | 340.93 | 306.33 | 296.40 | 261.80 |

## Tariffau Cymorth Fforddiadwyedd

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gymhwyster cwsmeriaid yn **dwrcymru.com**

| HelpU | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol (i gwsmeriaid oedd ar y tariff HelpU ar 31 Gorffennaf 2020, nid yw hyn ar gael i gwsmeriaid newydd) | 109.09 | 148.44 |
| Tâl blynyddol (ar gael i geisiadau newydd o 1 Awst 2020 ymlaen) | 124.01 | 167.29 |

| WaterSure Cymru | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol | 166.32 | 236.99 |

| WaterSure Cymru AMC | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol | 166.32 | 236.99 |

| Cymorth Dŵr Cymru – Pontio i Gwsmeriaid Carthffosiaeth yn unig | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|
| Tâl blynyddol | 236.99 |

Nodyn: Tariff pontio yw hwn i gwsmeriaid cymwys sydd ond yn talu tâl carthffosiaeth blynyddol Cymorth Dŵr Cymru - Tâl Pontio. Nid yw'r tâl ar gael i gwsmeriaid a oedd yn arfer talu naill ai tâl pontio cyfunol blynyddol Cymorth Dŵr Cymru neu dâl Pontio blynyddol Cymorth Dŵr Cymru - Anfesuredig.

# 9. Taliadau annomestig

## Taliadau anfesuredig safonol

| Gwasanaethau dŵr anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 120.93 |
| Tâl ar sail GA – fesul punt o GA | 1.1961 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 276.41 |

| Gwasanaethau carthffosiaeth anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 170.66 |
| Tâl Sefydlog – Dŵr budr yn unig | 81.89 |
| Tâl ar sail GA – fesul punt o GA | 1.7656 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 400.19 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf – Dŵr budr yn unig | 311.42 |
| Dŵr Wyneb yn unig – gan gynnwys draenio priffyrdd<br>(ni chodir tâl am eiddo â gwerth ardrethol o £25 neu lai) | 136.67 |

## Taliadau mesuredig safonol

| | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Cyfradd gyfeintiol safonol fesul metr ciwbig | 1.5889 | 2.0446 |
| Cyfradd gyfeintiol carthffosiaeth – Dŵr Budr yn unig fesul metr ciwbig | | 2.0446 |

| Tâl Gwasanaeth | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) | Carthffosiaeth – Dŵr Budr yn unig (£) |
|---|---|---|---|
| Hyd at 20mm | 31.39 | 106.59 | 53.19 |
| 25mm | 101.33 | 307.71 | 218.62 |
| 30mm | 179.57 | 427.79 | 338.70 |
| 40mm | 334.28 | 631.36 | 542.27 |
| 50mm | 505.62 | 1,127.40 | 1,038.31 |
| 65mm | 675.50 | 1,812.44 | 1,723.35 |
| 80mm | 893.70 | 2,631.45 | 2,542.36 |
| 100mm | 1,061.25 | 4,563.07 | 4,473.98 |
| 150mm | 1,364.39 | 10,488.98 | 10,399.89 |
| 200mm neu'n uwch | 1,364.39 | 18,696.64 | 18,607.55 |

# Taliadau mesuredig ar sail asesiad

## Dŵr

| Band (yn seiliedig ar y math o fusnes) | Asesiad o'r Defnydd ($m^3$/blwyddyn) | Tâl blynyddol (£) |
|---|---|---|
| Band 1 | Llai na 500 | 684.42 |
| Band 2 | 501-1,000 | 1337.46 |
| Band 3 | 1,001-2,000 | 2807.17 |
| Band 4 | 2,001-4,000 | 5091.99 |

## Carthffosiaeth

| Band (yn seiliedig ar y math o fusnes) | Asesiad o'r Defnydd ($m^3$/blwyddyn) | Tâl blynyddol Llawn (£) | Tâl blynyddol Dŵr budr yn unig (£) |
|---|---|---|---|
| Band 1 | Llai na 500 | 904.90 | 851.50 |
| Band 2 | 501-1,000 | 1,703.22 | 1,649.82 |
| Band 3 | 1,001-2,000 | 3,499.91 | 3,446.51 |
| Band 4 | 2,001-4,000 | 6,293.05 | 6,239.65 |

# Tariffau diwydiannol

## Dŵr yfadwy

| Band | Defnydd dangosol (Ml/blwyddyn) | Tâl sefydlog (£) | Tâl cyfeintiol (£/m$^3$) |
|---|---:|---:|---:|
| 1 | 50 - 99 | 22,711.77 | 1.1012 |
| 2 | 100 - 249 | 27,368.35 | 1.0545 |
| 3 | 250 - 499 | 42,012.29 | 0.9953 |
| 4 | 500 - 999 | 83,496.89 | 0.9118 |
| 5 | >1,000 | 161,088.63 | 0.8342 |

Bydd tâl gwasanaeth mesuredig safonol yn daladwy ar bob mesurydd.

## Dŵr anyfadwy

| Band | Defnydd dangosol (Ml/blwyddyn) | Tâl sefydlog (£) | Tâl cyfeintiol (£/m$^3$) |
|---|---:|---:|---:|
| A Wedi'i drin yn rhannol | <50 | | 1.4620 |
| A Crai | <50 | | 1.3650 |
| B Wedi'i Drin yn Rhannol | >50 | 45,694.75 | 0.5279 |
| B Crai | >50 | 46,562.15 | 0.4127 |

## Carthffosiaeth

| (Ar gyfer carthffosiaeth a ryddheir > 100,000 metr ciwbig y flwyddyn) | (£) |
|---|---:|
| Tâl sefydlog | 31,150.35 |
| Tâl sefydlog dŵr budr yn unig | 13,330.94 |
| Tâl cyfeintiol - Gwasanaeth llawn fesul metr ciwbig | 1.9238 |
| Tâl cyfeintiol - Gwasanaeth dŵr budr yn unig fesul metr ciwbig | 1.9238 |

# 10. Taliadau elifiant masnachol

| | |
|---|---|
| **Cais newydd am ganiatâd i ryddhau elifiant masnachol (ar gyfradd sero at ddibenion TAW)** | £405.60 |
| **Diwygio caniatâd cyfredol ar gais cwsmer (ar gyfradd sero at ddibenion TAW)** | £405.60 |

Mae taliadau elifiant masnachol yn cynnwys tâl sefydlog a thaliadau amrywiol sy'n amrywio yn ôl cyfaint a chryfder y samplau o elifiant a ryddheir.

Anfonir biliau elifiant masnachol naill ai'n fisol, yn chwarterol neu'n chwe-misol ar ôl defnyddio'r gwasanaeth, yn dibynnu ar y tâl misol cyfartalog. Mae'r taliadau'n daladwy cyn pen 14 diwrnod ar ôl anfon y bil a gellir eu talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, BACS neu siec.

Yn ogystal â'r tâl elifiant masnachol, bydd tâl am garthffosiaeth ddomestig yn daladwy. Caiff hyn ei gyfrifo, fel arfer, drwy briodoli gwerth rhifyddol i bob un o'r canlynol a'u lluosi: y cyfleusterau sy'n bresennol (mae'r gwerth rhifyddol a ddefnyddir yn dibynnu ar asesiad y Cwmni o gyfleusterau'r safle sy'n defnyddio dŵr); cyfanswm nifer y bobl sy'n gweithio ar y safle; a chyfanswm nifer y diwrnodau y mae'r safle'n gweithredu bob blwyddyn. Cyfrifoldeb y cwsmer yw ein hysbysu ni am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn. Lle bo'r cwsmer yn honni bod cyfaint yr elifion a ollyngir yn llai na chyfaint y dŵr a gyflenwir, a bod y Cwmni yn cytuno â hyn, daw'r addasiadau i'r taliadau i rym o ddechrau'r cyfnod bilio pan cyflwynir y cais. Fel arall, gellir cyfrifo taliadau drwy ddefnyddio'r data am lif a ddarperir gan y cwsmer ar adeg y mae'r Cwmni'n cytuno arno. Oni bai bod amgylchiadau'n mynnu fel arall, gellir defnyddio'r cryfder samplu canlynol at ddibenion codi tâl.

Asesiad y cwmni o gyfleusterau'r safle (sy'n defnyddio dŵr); cyfanswm nifer y gweithwyr sy'n gweithio ar y safle; a nifer y diwrnodau y mae'r safle'n gweithredu'n flynyddol. Caiff hyn ei filio yn erbyn cyfrif ar wahân, ynghyd ag unrhyw daliadau dŵr sy'n cael eu bilio gan y Cwmni.

| **Math o Ollyngiad** | **COD mg/l** | **Solidau mewn Daliant mg/l** |
|---|---|---|
| Golchfeydd ceir | 177 | 165 |
| Golchfeydd dillad | 484 | 175 |
| Pyllau Nofio | 25 | 66 |

## Rhyddhau i weithfeydd trin carthffosiaeth:

**Y fformwla yw naill ai:**

$$C = R + V + S \frac{S_t}{S_s}$$ (rhyddhau am driniaeth sylfaenol yn unig)

**Neu**

$$C = R + V + V_b + B \frac{O_t}{O_s} + S \frac{S_t}{S_s}$$ (rhyddhau am driniaeth eilaidd llawn yn unig)

**Lle:**

C = tâl/$m^3$ o elifiant

R = costau carthffosiaeth/$m^3$

V = costau triniaeth setlo sylfaenol/$m^3$

$V_b$ = costau eilaidd ar sail cyfaint/$m^3$

B = costau triniaeth eilaidd ar sail cryfder $m^3$

$O_t$ = COD wedi setlo yn yr elifiant mewn mg/l

$O_s$ = COD carthion domestig wedi setlo – 500mg/l

S = costau trin slwtsh/$m^3$

$S_t$ = solidau mewn daliant yn yr elifiant mewn mg/l

$S_s$ = solidau mewn daliant mewn carthion domestig-350mg/l

## Rhyddhau trwy ollyngfeydd i'r môr

**Ar gyfer masnachwyr sy'n rhyddhau trwy ollyngfeydd hir i'r môr**

$C = R + M$

**Ar gyfer masnachwyr sy'n rhyddhau i bob gollyngfa arall**

$C = R$ or $C = R + V_m$

**Lle:**

C = tâl/$m^3$

R = costau carthffosiaeth/$m^3$

M = costau trin morol/$m^3$

$V_m$ = pwmpio, costau trin cychwynnol/$m^3$

## Tariff safonol

| | | |
|---|---|---|
| **Tâl Sefydlog Elifiant Masnachol** | | 27.54 |
| **Y taliadau unedol sylfaenol fesul metr ciwbig yw:** | | |
| R | Cost gyfartalog derbyn metr ciwbig o ddŵr budr i'r garthffos, gan gynnwys ei gludo i'r gweithfeydd trin neu'r ollyngfa | 0.3742 |
| V | Cost gyfartalog triniaeth gychwynnol a sylfaenol | 0.4709 |
| $V_b$ | Cost gyfartalog elfennau pwmpio a setlo'r driniaeth fiolegol | 0.1922 |
| B | Cost gyfartalog triniaeth fiolegol, ac eithrio pwmpio a setlo | 0.3366 |
| S | Cost gyfartalog trin a gwaredu slwtsh sylfaenol yng ngweithfeydd trin carthffosiaeth mwy y Cwmni | 0.2458 |
| $V_m$ | Cost gyfartalog pwmpio, triniaeth gychwynnol a rhyddhau trwy ollyngfeydd | 0.1987 |

## Y Tariff Diwydiannol

Gall cwsmeriaid ddewis y tariff hwn lle bo 100Ml neu ragor y flwyddyn o elifiant masnachol yn cael ei ryddhau o un safle.

| | | |
|---|---|---|
| **Tâl Sefydlog** | | 273.92 |
| R | Cost gyfartalog derbyn metr ciwbig o ddŵr budr i'r garthffos, gan gynnwys ei gludo i'r gweithfeydd trin neu'r ollyngfa | 0.2517 |
| V | Cost gyfartalog triniaeth gychwynnol a sylfaenol | 0.4551 |
| $V_b$ | Cost gyfartalog elfennau pwmpio a setlo'r driniaeth fiolegol | 0.1784 |
| B | Cost gyfartalog triniaeth fiolegol, ac eithrio pwmpio a setlo | 0.2965 |
| S | Cost gyfartalog trin a gwaredu slwtsh sylfaenol yng ngweithfeydd trin carthffosiaeth mwy y Cwmni | 0.2458 |
| $V_m$ | Cost gyfartalog pwmpio, triniaeth gychwynnol a rhyddhau trwy ollyngfeydd | 0.1987 |

## Tâl trwydded atodol

Mae nifer gyfyngedig o ollyngiadau'n cynnwys crynodiad o sylweddau organig cymhleth sy'n mynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried bod angen eu rheoli drwy gynnwys cyfyngiadau ar grynodiadau mewn caniatâd rhyddhau.

Rhaid talu ffi trwyddedu uwch na'r cyffredin ar gyfer elifiant â chyfyngiadau o'r fath. Lle priodolir y cynnydd yn y ffi i un fath o elifiant masnachol neu elifiant y caniateir ei ryddhau ar ffurf y sylweddau hyn, caiff y ffi ychwanegol ei hychwanegu at dâl elifiant masnachol y sawl sy'n rhyddhau'r elifiant.

## Defnyddio gollyngfa

Codir tâl am ddefnyddio gollyngfeydd Dŵr Cymru i'r môr lle bo gan y cwsmer ei ganiatâd rhyddhau ei hun gan CNC a'i fod yn gollwng elifiant wedi ei drin yn uniongyrchol i'n gollyngfa ni.

| | |
|---|---|
| **Tâl Sefydlog (£)** | 273.92 |
| **Tâl Cyfeintiol fesul m³ (£)** | 0.0785 |

## Anghydfodau

Gellir cyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch rhyddhau elifiant masnachol at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 7.

# 11. Taliadau eraill ar gyfer mesuryddion

**Gosod Logiwr Data Dros Dro lle bo Amheuaeth fod Dŵr yn Gollwng**

| | |
|---|---|
| **Gosod logiwr data dros dro - ar gyfer mesuryddion 15-50mm**<br>Gall logiwr, sy'n mesur galw fesul cyfnodau o 1 funud, helpu cwsmeriaid i ganfod a oes dŵr yn gollwng ar eu cyflenwad. Caiff y tâl ei ad-dalu os ceir bod y gorddefnydd oherwydd gollyngiadau o bibellau Dŵr Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn cyflwyno data ar ddiwedd cyfnod o bythefnos | £66.69 + TAW |
| **Ymweliad aflwyddiannus i osod logiwr data dros dro** | Pris ar gais + TAW |

**Cyfarpar Logio Data'r Cwmni**

| | |
|---|---|
| **Mynediad at ddata ar-lein o gyfarpar logio data'r Cwmni a osodwyd ar safle'r cwsmer.**<br>Mae'r tâl yn gymwys fesul proffil defnyddiwr sy'n cael ei greu. | £22.27 + TAW |
| **Copïau print o wybodaeth cofnodi data'r Cwmni am safle'r cwsmer**<br>Mae'r tâl yn gymwys fesul copi o wybodaeth cofnodi data. | £ 22.27 + TAW |

**Profi —Domestig** (taliadau'n cynnwys TAW)

| | |
|---|---|
| **Tynnu'r mesurydd i'w brofi**<br>Anfonir anfoneb at y cwsmer os bydd canlyniadau'r profion yn dangos bod y mesurydd yn cofnodi defnydd o fewn paramedrau a ganiateir. Os ceir bod y mesurydd yn ddiffygiol, ni chodir tâl am y prawf. | Treuliau rhesymol hyd uchafswm o £70.00 |

**Profi — Annomestig**

| | |
|---|---|
| Os ceir bod y mesurydd yn ddiffygiol, ni chodir tâl am y prawf, fel arall codir tâl 'Newid Mesurydd' (gweler y tabl gyferbyn) plws cost go iawn profi'r mesurydd. | Pris ar gais + TAW |

## Taliadau anghyffredin darllen mesuryddion

Yn unol â'n Cod Ymarfer Darllen Mesuryddion, rydym yn cadw'r hawl i adennill unrhyw gostau ychwanegol a dynnir wrth ddarllen mesuryddion oherwydd ymddygiad afresymol parhaus cwsmer. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill:

| | |
|---|---|
| **Hysbysiad am Fynediad/Gwarant Mynediad** | Pris ar gais + TAW |
| **Costau cyfreithiol neu gostau arbenigol eraill** | Pris ar gais + TAW |
| **Cais i ddarllen mesurydd gan fanwerthwr neu gwsmer** | £43.33 + TAW |
| **Ymweliad aflwyddiannus** | £43.33 + TAW |

## Newid mesurydd

Lle bo'r Cwmni'n gallu gosod mesurydd newydd y gellir ei sgriwio i mewn i'r blwch ffin sydd eisoes yn bodoli heb wneud gwaith ychwanegol, codir tâl o £90.42. Fel arall nodir y tâl perthnasol yn y tabl isod. (Os nad yw'r mesurydd yn cofnodi'r llif yn gywir mwyach, caiff un newydd ei osod am ddim). Os cyflawnir hyn y tu hwnt i oriau gwaith arferol gallwn godi taliadau ychwanegol.

| **Maint y mesurydd sy'n cael ei osod** | **Tâl (£) heb waith cloddio + TAW** | **Tâl (£) gyda gwaith cloddio + TAW** |
|---|---:|---:|
| Hyd at 25mm | 90.42 | 316.83 |
| 30mm | 205.53 | 431.94 |
| 40mm | 266.05 | 492.46 |
| 50mm | 567.53 | 793.94 |
| 80mm | 632.47 | 858.88 |
| 100mm | 704.45 | 930.86 |
| 150mm | 807.27 | 1,033.68 |
| 200mm | 908.48 | 1,134.88 |
| Dros 200mm | Gwir Gost | Gwir Gost |

## Symud mesurydd dŵr

Dim ond o dan amgylchiadau penodol y byddwn ni'n ystyried symud mesurydd. Er enghraifft, os ydych chi'n cael gwaith wedi ei gyflawni yn eich cartref a fydd yn effeithio ar ei leoliad cyfredol, neu os ydych ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth ac y bydd symud y mesurydd i leoliad arall o fewn eich cartref yn ei gwneud yn haws i chi ei ddarllen - a hyd yn oed wedyn gallwn gynnig dewis arall i chi. Os nad ydych ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, ni fyddwn ni'n symud mesurydd o'r tu allan i'r tu fewn i eiddo. Cyflwynwch eich cais a'ch rheswm i ni yn **dwrcymru.com** neu rhowch alwad i ni ar **0800 052 0140**.

| | **Tâl (£)+TAW** |
|---|---:|
| Os nad oes angen cloddio am fod yna flwch ffin y tu allan a fydd yn cymryd mesurydd y gellir ei sgriwio i mewn | 90.42 |
| Os oes angen i ni gloddio i adfer blwch ffin neu i osod un newydd, y gost fydd | 316.83 |

Ar y cyfan, mae ein mesuryddion dŵr a'n stoptapiau ar ddiwedd pibell gyflenwi breifat eiddo, yn y pwynt sydd agosaf at ein prif bibell.

Ni fyddwn ni'n symud ein cyfarpar i fod yn agosach at neu o fewn ffin eiddo, nac i gysylltu â phibellwaith preifat.

## Tynnu mesurydd

Os oes mesurydd wedi cael ei dynnu heb ein caniatâd neu heb yn wybod i ni, a bod angen gosod un newydd, bydd y costau fel a ganlyn.

| | **Tâl (£)+TAW** |
|---|---:|
| Os nad oes angen cloddio am fod yna flwch ffin y tu allan a fydd yn cymryd mesurydd y gellir ei sgriwio i mewn, y gost fydd | 90.42 |
| Os oes angen i ni gloddio i adfer blwch ffin neu i osod un newydd, y gost fydd | 316.83 |
| neu'r gost am osod mesurydd newydd y tu fewn i eiddo fydd | 90.42 |

# 12. Taliadau amrywiol

Rhaid talu'r taliadau ymlaen llaw oni nodir fel arall. Heblaw lle nodir fel arall, gellir gofyn am y 'pris ar gais' trwy ffonio **0800 052 0130** (0800 260 5051 i gwsmeriaid Open Water).

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| **Datgysylltu Dros Dro** | Gallai'r tâl am ddraenio Dŵr Wyneb fod yn daladwy o hyd. Efallai na fydd yn bosibl datgysylltu cyflenwad ar y cyd dros dro. | Pris ar gais |
| **Ailgysylltu ar ôl datgysylltiad dros dro** | | Pris ar gais |
| **Datgysylltu** – parhaol | Rhaid i berchennog yr eiddo gyflwyno cais ysgrifenedig i'r adran Bilio a Chyfrifon neu anfon e-bost i **dwrcymru.com** | Pris ar gais |
| **Ailgysylltu** – yn dilyn datgysylltiad parhaol. | Ymgeisiwch yn **dwrcymru.com**. Mae'r taliadau yn y 'Cynllun Taliadau - Gwasanaethau Datblygu' | Bydd y tâl am gysylltiad newydd yn daladwy |
| **Datgysylltu** – oherwydd methiant i dalu. | | Pris ar gais |
| **Ailgysylltu** – ar ôl talu'r taliadau dyledus. | | Pris ar gais |
| **Tâl am ymweliad aflwyddiannus** (ar gyfer pob un o'r uchod) | Ni allwn ddatgysylltu eiddo preswyl yn unig am ddiffyg taliadau. Bydd y tâl yn cynnwys y costau a dynnwyd wrth ddatgysylltu ac ailgysylltu. Gallwn ofyn hefyd am ernes gan gwsmeriaid annomestig (h.y. un cylch bilio + 3 mis o daliadau). | Pris ar gais |

## Dŵr Llongau

(anfonir anfoneb at y cwsmer, â TAW ar Gyfradd Sero gydag eithriadau - gweler tudalen 3 eitem 8)

| Eitem | Tâl (£) |
|---|---|
| **Cyfradd gyfeintiol safonol fesul metr ciwbig** | 1.5889 |
| **Tâl gwasanaeth fesul awr** | 39.00 |

## Gwasanaethau cynllunio ar gyfer argyfwng – darparu dŵr

| Eitem | Tâl (£) |
|---|---|
| Darparu dŵr gan ddefnyddio tanceri, tanceri dŵr a phaledi brys os ydynt ar gael. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus. | Pris ar gais + TAW |

## Safbibellau

Nid yw safbibellau ar gael i'w llogi yn ein depos lleol. Llogir safbibellau gan ein hasiant penodedig. Dim ond at ddefnydd penodol y caniateir llogi safbibell. Dim ond safbibellau a logir gan ein hasiant penodedig gyda'n caniatâd ni y caniateir eu defnyddio ar ein rhwydwaith. Mae gan bob safbibell fesurydd, a chaiff TAW ei hychwanegu at y swm. I gael manylion llawn, ewch i **dwrcymru.com**

**Safbibellau i'w defnyddio ym maes adeiladu**
Ni chaniateir llogi safbibell. Mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn i chi gysylltu â'n rhwydwaith dan fesurydd.

**Eiddo neu dir â chyflenwad dŵr eisoes**
Ni chaniateir llogi safbibell. Gallwn osod mesurydd ar gyflenwad presennol pan fo eiddo neu dir yn segur, neu os oes gwaith adnewyddu neu addasu'n cael ei wneud arno. Cysylltwch â ni yn **dwrcymru.com**

**Eiddo neu dir presennol heb gyflenwad dŵr**
Ni chaniateir llogi safbibell. Gallwn fynnu eich bod yn trefnu cysylltiad â'n rhwydwaith dan fesurydd. Cysylltwch â'n Gwasanaethau Datblygu yn **dwrcymru.com**

**Safleoedd adeiladu a gwaith peirianneg sifil mawr**
Ni chaniateir llogi safbibell. Gallwn fynnu eich bod yn trefnu cysylltiad â'n rhwydwaith dan fesurydd.

## Hydrantau tân

| Gwasanaeth | Disgrifiad | Tâl(£) |
|---|---|---|
| Gosod hydrant | Ar brif bibell newydd (diamedr 80-200mm) | 802.24 |
| Gosod hydrant | Ar brif bibell sy'n bodoli eisoes (diamedr 80-200mm) | 1,462.54 |
| Gosod postyn/plât marcio | | 155.45 |
| Tynnu postyn/plât marcio | | 155.45 |
| Tynnu hydrant | Oddi ar y brif bibell bresennol (diamedr 80-200mm) | 692.50 |
| Trwsio hydrant | Categori 1 (e.e. caead a ffrâm) | 272.00 |
| Trwsio hydrant | Categori 2a (e.e. caead, ffrâm a darn o siambr) | 505.05 |
| Trwsio hydrant | Categori 2b (e.e. caead, ffrâm, ailosod, gosod wasier newydd) | 810.69 |
| Trwsio hydrant | Categori 3 (gosod hydrant hollol newydd) | 896.80 |

## Trwsio cyfarpar y Cwmni

Codir tâl rhesymol am bob darn o waith i drwsio difrod gan drydydd parti i gyfarpar rhwydwaith dŵr neu garthffosiaeth y Cwmni.

## Archwiliadau o ffitiadau dŵr

Cynnal archwiliad i ganfod a oes unrhyw ddarpariaeth o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, a wnaed odani neu y mae'r Ddeddf yn effeithio arni, mewn perthynas ag unrhyw ffitiadau dŵr neu mewn perthynas â gwastraffu neu gamddefnyddio dŵr, yn cael ei thorri, neu wedi cael ei thorri.

| **Gwasanaeth** | **Tâl(£)** |
|---|---|
| Yr archwiliad cychwynnol a'r archwiliad dilynol cyntaf | Dim tâl |
| Archwiliadau dilynol | 100.74 + TAW |
| Ymweliad aflwyddiannus | 55.29 |

Yn dilyn archwiliad cychwynnol o dan y Rheoliadau Ffitiadau Dŵr lle mae'r Cwmni'n canfod bod darpariaethau wedi cael eu torri, byddwn ni'n cytuno gyda'r cwsmer ar raglen waith ac amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith. Lle na chyflawnir y camau y cytunir arnynt a bod angen cyflawni ymweliadau pellach i sicrhau cydymffurfiaeth, codir tâl fesul awr i gwmpasu costau'r ymweliadau hyn.

## Gwaith atgyweirio cysylltiadau dŵr newydd

Codir tâl am bob darn o waith trwsio, atgyweirio neu adfer y mae'r Cwmni'n ei wneud ar gysylltiad dŵr neu garthffosiaeth sydd wedi'i osod mewn cyflwr annerbyniol.

| **Taliadau cywiro** | **Sylwadau Ychwanegol** | **Tâl(£)** |
|---|---|---|
| Ymweliad aflwyddiannus | Y tâl uchaf | 331.15 |
| Archwiliad o Ansawdd Cysylltiad Newydd | Ymweliad cyntaf | Dim tâl |
| Archwiliad o Ansawdd Cysylltiad Newydd | Cost fesul ymweliad ychwanegol | 27.52 |
| Archwiliad aflwyddiannus | Y tâl uchaf | 27.52 |
| Gwaith adfer | | Pris ar gais |

## Gwaredu gwastraff carthbwll, tanc septig neu dancer[1]

Tâl sefydlog fesul llwyth £9.84

| Solidau mewn Daliant | Sylwadau Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| 0 – 2,000 mg/l | Yn amodol ar isafswm tâl sy'n seiliedig ar lwyth 4.5 metr ciwbig (tua 1,000 galwyn). Mae'r tâl fesul metr ciwbig. | 6.28 |
| 2,001 – 20,000 mg/Ll | Tâl fesul metr ciwbig. | 10.40 |
| Mwy na 20,000 mg/l | Tâl fesul metr ciwbig. | 15.06 |

1 Nid yw'r Cwmni'n darparu gwasanaeth casglu carthion o danciau septig na gwastraff carthbyllau domestig. Bydd y tâl carthbyllau'n gyfyngedig i weithfeydd carthffosiaeth lle mae presenoldeb staff yn barhaol. Gellir cael manylion y safleoedd hyn drwy ffonio ein hadran Gwasanaethau Carthffosiaeth ar 0800 085 3968.
2 Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i wrthod gwastraff sy'n cynnwys mwy na 20,000 mg/l o solidau mewn daliant.

## Taliadau Eraill

| Gwasanaeth | Sylwadau Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Achosion Gweithredol nad ydynt yn Argyfwng | Anfonir anfoneb am y tâl yn sgil y digwyddiad. | Pris ar gais + TAW |
| Sieciau a wrthodir | Fesul siec. Anfonir anfoneb am y tâl yn sgil yr achos. | 20.00 (y tu hwnt i gwmpas TAW) |
| Gwybodaeth a chopïau o ddogfennau | Codir tâl safonol am unrhyw wybodaeth arferol na ddarperir am ddim. Codir tâl am ymholiadau eraill ar sail cost. Codir tâl am wybodaeth a geisir o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn unol â'n polisi taliadau EIR (sydd ar gael yn dwrcymru.com) | 6.60 + TAW |
| Copïau o ddogfennau bilio | Fesul bil neu ddogfen debyg. Ni chodir tâl am y cais cyntaf fel rheol. | 6.60 + TAW |

# 13. Taliadau seilwaith

Mae'r taliadau seilwaith am gyflenwad at ddibenion domestig yn daladwy o dan Adran 146 o'r Ddeddf, ac Amod C o Drwydded Offeryn Penodi'r Cwmni (fel y'i haddaswyd).

Mae cysylltiadau newydd yn cynyddu'r pwysau ar y systemau dŵr a charthffosiaeth, a gall hyn olygu y bydd angen cyflawni gwaith arnynt yn y pen draw. Felly, yn ogystal ag unrhyw dâl am gysylltiad dŵr neu garthffosiaeth a/neu dâl gosod, codir tâl seilwaith am gysylltiad dŵr newydd a thâl seilwaith am gysylltiad carthffosiaeth newydd hefyd.

Bydd taliadau seilwaith yn daladwy ar ôl cysylltu'r cyflenwad dŵr. Codir y taliadau am bob gwasanaeth a ddarperir; lle darperir cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth, bydd y ddau daliad seilwaith yn daladwy ar y cam yma. Os na ddarperir gwasanaethau carthffosiaeth ar gyfer eiddo, ni fydd unrhyw daliadau seilwaith carthffosiaeth yn daladwy.

Gall y taliadau hyn fod yn daladwy hefyd lle bo safle wedi cael ei ailddatblygu a bod yr ailddatblygiad hwnnw'n golygu bod y galw ar y safle'n uwch nag yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Caiff y taliadau hyn eu bilio ar yr un pryd â'r tâl am gysylltiad dŵr fel rheol. Mae taliadau seilwaith y tu hwnt i gwmpas TAW.

Codir un tâl seilwaith safonol fesul eiddo ar gyfer cysylltiadau domestig eiddo unigol â diamedr o 25mm, neu lle bo angen cysylltiad mwy ar gyfer system taenellwr tân domestig gyfunol.

| Eitem | Eitem | Tâl (£) |
|---|---|---|
| **Dŵr** | Tâl seilwaith | 487.00 |
| **Carthffosiaeth** | Tâl seilwaith | 487.00 |

## Lluosyddion Perthnasol

Y tâl ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys fflatiau â mesuryddion unigol fydd un tâl safonol fesul fflat.

Caiff taliadau ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys fflatiau a wasanaethir gan swmpgyflenwad mesuredig ac ar gyfer eiddo dibreswyl eu cyfrifo drwy luosi'r tâl safonol uchod â'r lluosydd perthnasol. Caiff y lluosydd perthnasol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm yr unedau llwytho ar gyfer pob ffitiad dŵr ar y safle a gyflenwir, a'i rannu â 24. Y rhif hwnnw neu 1 (p'run bynnag yw'r uchaf) yw'r lluosydd perthnasol.

| | | **Taliadau am Gysylltiadau Newydd** | **Caniateir Credydau os bu'n Segur < 5 Mlynedd** |
|---|---|---|---|
| **Math o Eiddo** | **Math o Ddefnydd** | **Lluosydd Perthnasol** | **Lluosydd Perthnasol** |
| Preswyl | Domestig | 1 | 1 |
| Dibreswyl | Domestig | Yn seiliedig ar unedau llwytho | Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol |

## Unedau llwytho

Lle bo gan eiddo ddefnydd domestig, ond bod maint y cysylltiad yn fwy na 25mm, neu gysylltiad taenellwr tân domestig cyfunol o 32mm, defnyddir unedau llwytho i bennu'r Lluosydd Perthnasol drwy gyfeirio at y tabl a'r nodiadau canlynol.

| Ffitiad dŵr | Unedau Llwytho |
|---|---|
| Seston Fflysio Toiled | 2 |
| Basn ymolchi mewn tŷ | 1.5 |
| Basn ymolchi mewn man arall | 3 |
| Bath â thapiau 20mm | 10 |
| Bath â thapiau mwy na 20mm | 22 |
| Cawod | 3 |
| Sinc â thapiau 15mm | 3 |
| Sinc â thapiau mwy na 15mm | 5 |

| Ffitiad dŵr | Unedau Llwytho |
|---|---|
| Tap chwistrellu | 0.5 |
| Bidet | 1.5 |
| Offeryn domestig (yn amodol ar isafswm o chwe uned lwytho fesul tŷ) | 3 |
| Offeryn cymunedol neu fasnachol | 10 |
| Unrhyw ffitiad dŵr neu allfa arall 3 (gan gynnwys tap ond nid troethfa na meddalydd dŵr) | 3 |

## Credydau tâl seilwaith

Lle bo safle'n cael ei ailddatblygu a bod y Cwmni wedi darparu gwasanaethau i'r safle hwnnw o fewn 5 mlynedd cyn i'r cysylltiad parhaol newydd cyntaf i'r datblygiad newydd gael ei greu, gellir lleihau cyfanswm y taliadau seilwaith dŵr ar gyfer y safle.

Caiff nifer y safleoedd domestig oedd yn bodoli ac a oedd â chysylltiad dŵr ar y safle yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd, neu yn achos safleoedd annomestig lle bu mesurydd, caiff nifer y credydau sy'n ddyledus yn seiliedig ar y defnydd cyfartalog o ddŵr yn y datblygiad blaenorol yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd, ei thynnu o gyfanswm y lluosyddion perthnasol ar gyfer y cysylltiadau sy'n deillio o'r datblygiad newydd.

Bydd lluosi'r cyfanswm newydd â'r tâl safonol yn rhoi cyfanswm y tâl seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Gwneir gostyngiad tebyg o ran y cysylltiadau carthffosiaeth a oedd yn arfer gwasanaethu'r safle.

Lle bo anghydfod rhwng y Cwmni a'r unigolyn y codir y tâl seilwaith arno o ran y lluosydd perthnasol a gyfrifir ar gyfer datblygiad, gellir cyfeirio'r mater at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 7.

Nodiadau: 1. Bydd cyfeiriad at unrhyw ffitiad yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw waith plymio, allfa, lle pwrpasol neu gynllun neu ddarpariaeth arall ar gyfer y ffitiad hwnnw. 2. Mae bath yn cynnwys baddonau trobwll a Jacwsis. 3. Mae offer domestig yn golygu offer (fel peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi dillad ac unedau gwaredu gwastraff) mewn tŷ. 4. Mae offer cymunedol neu fasnachol yn golygu offer (fel peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi dillad ac unedau gwaredu gwastraff) mewn man arall ar wahân i dŷ (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol).